**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mawrth 2000**
**Amser: 9.30 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol**

**Teitl: ADRODDIAD AR BWERAU'R CYNULLIAD – DEDDF GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD 1995 – TROTHWY CYFLOGAETH**

## Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cyngor Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yngln â phwerau'r Cynulliad i amrywio'r trothwy cyflogaeth y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i nodi nad oes gan y Cynulliad ber i amrywio'r trothwy cyflogaeth y darperir ar ei gyfer yn a 7(2) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

## Cefndir

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, bu'r Pwyllgor yn trafod Adroddiad y Tasglu Hawliau'r Anabl sy'n dwyn y teitl "From Exclusion to Inclusion". Yn ystod y drafodaeth, codwyd cwestiwn yngln â pher y Cynulliad i amrywio'r trothwy cyflogaeth y darperir ar ei gyfer yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
4. Mae Rhan II o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyflogwyr sy'n cyflogi 15 neu fwy o weithwyr (cafodd y trothwy ei ostwng a hynny'n effeithiol o 1 Rhagfyr 1998 ymlaen) wahaniaethu yn erbyn gweithwyr presennol neu ddarpar weithwyr sydd ag anableddau am reswm sy'n gysylltiedig â'u hanabledd, oni bai fod rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros wneud hynny.
5. Yn ogystal, rhaid i gyflogwyr wneud newidiadau rhesymol os bydd eu trefniadau cyflogi neu adeiladau yn golygu bod gweithiwr anabl cyflogedig neu ymgeisydd anabl o dan anfantais sylweddol. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys i bob maes cyflogaeth, gan gynnwys recrwitio, hyfforddi, datblygu gyrfa a diswyddo.

**Cyngor**

6. Yn ôl cyngor Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, er bod y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 yn trosglwyddo nifer o swyddogaethau ym maes cyfleoedd cyfartal, nid yw'r per i amrywio'r trothwy cyflogaeth o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn eu plith. Mae Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol o'r farn fod hwn yn achos achos y byddai angen per penodol iawn mewn cysylltiad ag ef. Yn benodol, maent yn cynghori na fyddai adran 43 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ddigonol fel sail i'r Cynulliad amrywio'r trothwy, gan nad oes modd defnyddio'r adran honno ond "cyn belled ag y gall fod yn angenrheidiol er mwyn i'r Cynulliad arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ....."; hynny yw, mae'n ddibynnol ar fodolaeth swyddogaeth ac nid oes modd ei defnyddio i gaffael swyddogaethau.

**Gweithredu**

7. Gwahoddir Aelodau i nodi'r cyngor oddi wrth Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, sef nad oes gan y Cynulliad ber i amrywio'r trothwy cyflogaeth o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

**Man Cyswllt:** Yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus – Yr Uned Polisi Cydraddoldeb